// DINESYDD
Mehefin

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1984

RHIF 107

# CYHOEDDI'R 'STEDDFOD





## ADRODDIAD LLAWN TU MEWN . . .

# GOLYGYDDOL

YMDDENGYS BOD BRWYDR hir Dafydd a Beti Evans i sicrhau y bydd eu merch Catrin yn ymuno â'i brawd Llŷr yn ysgol Coed-y-Gof drosodd ac mae'n hen bryd hefyd. Gwarth o beth ym 1984 yw bod yn rhaid i rieni fynd i'r Uchel Lys i sicrhau addysg Gymraeg i'w plant o fewn cyrraedd rhesymol i'w cartref.

Ni allwn ond diolch bod Dafydd, Beti a'r plant wedi bod yn ddigon dewr a dygn i sefyll eu tir a brwydro yn erbyn yr awdurdod addysg costied a gostio. Hyderwn y bydd yr awdurdod yn awr yn ddigon doeth i syrthio ar ei bai a chaniatau mynediad i Catrin i Goed-y-Gof ar unwaith. Hyderwn hefyd y bydd i aelodau a swyddogion y cyngor sir sylweddoli mai arnyn nhw y mae'r bai am yr helynt a gafwyd. Nid yw'r awdurdod addysg erioed wedi cynllunio ar gyfer dyfodol addysg Gymraeg o'i gwirfodd. Ymateb i bwysau gan rieni fu'r hanes yn ddi-eithriad. Mae'r dyddiau hynny drosodd. O hyn allan rhaid i'r awdurdod edrych yn bellach na'i thrwyn i'r dyfodol a darparu'n ddigonol ar gyfer twf parhaol ac anochel addysg Gymraeg. Oblegid tyfu a wna'r galw, ac er bod rhai rhieni, yn anffodus, yn ddigon bodlon unwaith yr â eu plant nhw i'r ysgol, daw eraill ac eraill eto ar eu hôl hwythau i hawlio darpariaeth deilwng. Nawr yw'r amser i gynllunio ar gyfer pumed ysgol Gymraeg, a hynny yn yr ardal lle mae'r galw pennaf, sef Treganna. Ar waethaf y sefyllfa economaidd a pholisiau'r llywodraeth, mae'r adnoddau i'w cael. Y cwestiwn yw a oes gan awdurdod addysg De Morgannwg yr ewyllys?

Cynhelir Cwrdd Ordeinio Mr. Gwilym E. Davies, B.A., yn y Tabernacl ar brynhawn Dydd Sadwrn, 30 Mehefin, am 3 o'r gloch.



Llywyddir gan y gweinidog, y Parchedig Raymond Williams ac fe bregethir gan dad Mr. Davies, y Dr. Dafydd G Davies, Prifathro Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd.

Trefnir te i ymwelwyr am 4.30 ac estynnir croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Cwrdd Sefydlu Mr. Gwilym Davies yn Hengoed, nos Fercher, 29 Awst, am 7 o'r gloch, pryd disgwylir i bregethu y Parchedig Howard Williams, Llundain, sef Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a Lloegr.

---

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

---

Dylid anfon unrhyw gyfraniadau at rifyn Gorffennaf/Awst at: Aled Islwyn, 139 Fairwood Rd., Llandaf, Caerdydd, erbyn yr 21ain o Fehefin.

# Y CALENDR

MEHEFIN

8 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch - Cymuned Rhiwbeina, Helfa Drysor, Cychwyn o Ysgol Glantâf, 6.30 o'r gloch, £1 y car.

8 Cyfarfod Blynyddol y Cymrodorion yn Festri'r Tabernacl nos Wener, Mehefin 8, am 7.30 o'r gloch.

9 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch - Cymuned Pentwyn a Llanedeyrn - Twmpath Dawns, Gwilym Roberts yn galw, yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanedeyrn. 8 o'r gloch. Swper a Bar. Pris mynediad £2.

16 Bore Coffi yn Festri Capel Ebeneser, er budd Eisteddfod yr Urdd, 10.30 - 12.00.

16 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch - Cymuned Penylan - Ffair Sborion yng Nghapel y Methodistiaid Westminster Crescent, Heol Cyncoed. 2 o'r gloch.

22 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch - Cinio a Dawns yn Neuadd y Ddinas.

23 Dathlu Gŵyl Ifan yn Neuadd Dewi Sant

Gorffennaf

7 Garddwest yng ngerddi Coed-ar-hyd-y-Glyn (Cartref Syr Cenydd Treharne), 2.30 p.m. Pris £2.50, Plant 50c. Er budd Eisteddfod yr Urdd.

# BUDDUGOLIAETH AR Y GORWEL



(Llun: Western Mail & Echo)

WEDI WYTH MIS o frwydro fe ddylai Catrin Evans allu ymuno â'i brawd Llŷr yn ysgol Coed-y-Gof cyn bo hir iawn. Dyna o leia' yw gobaith eu rhieni, Dafydd a Beti Evans a'u cyfreithiwr Michael Jones, wedi i farnwr Uchel Lys yn Llundain ddyfarnu o'u plaid ar Fai'r 10fed.

Gorchmynodd Mr. Ustus Forbes i gais Catrin i fynd i Goed-y-Gof gael ei ail-ystyried gan dribiwnlys apêl yr awdurdod. Dywedodd nad oedd y gwrandawiad a gynhaliwyd ym mis Ionawr 1984, pan wrthodwyd apêl ar ran Catrin, wedi ystyried y mater fel ag y dylai.

Ni allai ddeall, meddai, sut y bu i'r tribiwnlys wneud penderfyniad heb glywed tystiolaeth oddiwrth brifathro ac athrawon Coed-y-Gof. Ychwanegodd nad oedd y cyngor sir wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth i gadarnhau'r honiad y byddai caniatau mynediad i Catrin yn cael effaith andwyol ar y 36 o blant eraill yn y dosbarth.

Yn naturiol ddigon roedd Dafydd a Beti Evans wrth eu bodd â'r dyfarniad, a'u hunig obaith nawr yw y daw'r helynt i ben yn fuan ac y caiff Catrin ymuno â'i brawd a pharhau â'i haddysg. Dywed Michael Jones, sydd hefyd yn gadeirydd cymdeithas rhieni Coed-y-Gof, bod y dyfarniad "wedi cadarnhau bod Deddf Addysg 1980 yn gorseddu hawl y rhiant i ddewis ac wedi gorfodi'r cyngor sir i gymryd hynny i ystyriaeth".

O hyn allan rhaid i'r awdurdod addysg brofi y byddai caniatau i ddisgybl fynychu ysgol arbennig yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion eraill. A hyd yn oed os oes effaith andwyol, rhaid mesur a phwyso hynny gyferbyn â ffactorau eraill megis daearyddiaeth, ble mae'r plentyn yn byw, a oes ganddo ef neu hi frodyr neu chwiorydd, dymuniad y rhieni, canllawiau'r awdurdod addysg, ystyriaethau cymdeithasol a meddygol ac ati.

Mae i'r dyfarniad oblygiadau pell-gyrhaeddol i awdurdod addysg De Morgannwg fel pob awdurdod arall. Pan ystyrir ceisiadau ar gyfer mynediad i'r ysgolion Cymraeg ym mis Medi bydd llawer anos i'r awdurdod wrthod cydymffurfio â dymuniadau rhieni.

Parhau mae'r galw am addysg Gymraeg. Ym Mai 1979 'roedd 629 o blant ym Mryntaf,bellach mae 703 o blant wedi'u rhannu rhwng y pedair ysgol:

| | |
|---|---|
| Bro Eirwg | 136 |
| Coed-y-Gof | 222 |
| Melin Gruffydd | 221 |
| Y Wern | 124 |

A'r hyn sydd o arwyddocad a arbennig efallai yw llwyddiant buan Bro Eirwg, sydd, yn groes i ddisgwyliadau rhai efallai, wedi ennill ei phlwyf ac yn denu nifer o blant o'r ardal gyfagos.

Disgwylir ceisiadau gan o leiaf 120 o blant ar bedair ysgol ym mis Medi ac oni bai bo cynlluniau'n cael eu gwneud ar eu cyfer bydd rhagor o blant yn gorfod wynebu taith awr i gyrraedd yr ysgol.

Ond yn hytrach na chynllunio ar gyfer y dyfodol ymddengys bod yr awdurdod am wneud y sefyllfa'n waeth trwy ddileu un swydd yng Nghoed-y-Gof. Os digwydd hynny gellir disgwyl ymateb chwyrn o sawl cyfeiriad.

Mis Medi nesa' gobeithiwn ddechrau dosbarth dysgu Cymraeg i famau ac eraill sydd â diddordeb ganddynt yn neuadd yr eglwys gogyfer ag ysgol Glantaf. Fe fydd y dosbarth yn rhedeg am un bore neu ddau fore'r wythnos yn ôl y galw, o 9.45 tan 11.15. Fe fydd gennym adnoddau hefyd i edrych ar ôl babanod a phlant bach.

Os oes diddordeb gan unrhyw un i ymgymryd â'r gwaith, a wnant gysylltu â Mrs. Ann Evans yng Nghanolfan Oedolion Radyr

---------

# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Rhian Lewis ar ei dyweddiad â Rhys Gwyn Griffith o Fangor.

Llongyfarchiadau i Delyth a Keith Shapey ar enedigaeth mab, Iestyn Matthew, brawd i Jonathan.

Dymunwn yn dda i W. Emrys Evans ar ei ymddeoliad fel Cyfarwyddwr Rhanbarthol Cymru o Fanc y Midland, ac ar yr un pryd ei longyfarch ar gael ei benodi i swydd o wasanaeth arall i Gymru fel Cadeirydd Cyngor Ymgynghorol y Banc yng Nghymru.

Llongyfarchiadau i Gareth Lloyd Jones ar ei benodiad yn Ysgrifennydd Y Cyd-bwyllgor Addysg.

# CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn yn ddwys â theuluoedd dau o ffyddlon-iaid o Heol y Crwys a fu farw'n ddiweddar sef teulu'r Parchedig Elwyn Rowlands a Gwilym Rees. Bydd Heol y Crwys yn dlotach o'u colli.

Cydymdeimlir ag Alwyn Jones ar ei brofedigaeth o golli ei dad yn Y Bala yn ddiweddar.

Cydymdeimlir hefyd â Huw Davies, yntau wedi colli ei dad, yn ddiweddar.

# Y GOLOFN GAIN

Colofn o englynion y tro hwn. Bu'r Prifardd Dic Jones yn dathlu ei hanner cant ddiwedd mis Ebrill, ac mewn ymryson yng Nghaerdydd bu beirdd y Brifddinas yn talu eu teyrngedau iddo. Os oedd ambell un yn swnio ychydig bach yn angharedig, mae'n debyg mai gormes rhyw ddelwedd neu'i gilydd oedd yn eu harwain ar gyfeiliorn.

Rhag rhagrith gwell fyddai britho, - (Richard
Hen rwtsh yw'r stwff duo),
Wedyn o'i ben dôi heno
Syndod ei benwyndod o. (U.W.)

Rhyfelgar yw'r faharen - hen arwydd
Fu'n gyrru dy awen;
Daeth ffraethder dan dy seren,
Ond Dic, bellach ti wyd hen. (E.O.)

Wedi'r gwanwyn daw'r gwynnu a heulwen
Hwyl y cynaeafu
A haul hydre'n pelydru.
Hen Ddic, boed dy wallt yn ddu. (A.O.)

Yr hyglod Ddic Tanreglwys, yn awr cest
Hanner cant, - a gorffwys.
Un gwâr a bardd, gŵr o bwys, -
Brydydd, haeddi baradwys. (A.G.)

Ô! Dic, ni fu'i odidoced na'i well;
Di-dwll a fo pwced
Yr un sy'n godro yn sied
Yr Hendre'n hanner hwndred. (A.W.)

Pwerus a fu'r peiriant o dractor
Hectic; nawr mewn ceunant
Yn ddi-rym o ddiramant
Hen wrec yw yn hanner cant. (E.L.)

Ai o reidrwydd y bu rywdro - acw'n
Nhŷ'r Spîcar yn 'joio?
Bu gyda George yn gorjo; -
A ddaw ef i'w benblwydd o? (A ap B.)

Swopio'r tail am Siwper-Ted, - oen swci
Am sieciau'n y waled;
Pŵ - pŵ i waith y pôed, -
Ar y bocs mae'r ffeddyr bed. (I.Ll.)

Ar ôl clywed cymaint o arogalu tail byddai'n well dod yn ôl i awyrgylch gwar y ddinas a chloi'r golofn y mis hwn gydag englyn syber John Wood:

<u>CANOLFAN SIOPA DEWI SANT.</u>

Drws i warws y werin a egyr
Fel ogof Aladin;
Mae moethau'n llond pob stondin
Yn bwn braf, heb neb yn brin. (J.W.)

## COLOFN
### Shân Emlyn

Siomedig iawn oedd y gynulleidfa ddaeth i gyfarfod cyhoeddus Y Dinesydd yng Nghlwb Ifor Bach nos Iau y 3ydd o Fai. Prin ei bod yn gynulleidfa yn wir, y Pwyllgor Rheoli a rhyw dri arall. Ydy hyn yn dynodi nad yw Cymry Cymraeg Caerdydd am gynnal Y Dinesydd? Os oes anfodlonrwydd arno fel y mae, pam na ddaeth neb yno i leisio barn?

Diolch am y criw ffyddlon ddaeth, a'r teimlad ar ddiwedd y cyfarfod oedd bod yn rhaid i bapur bro hynaf Cymru fyw, er dibynnu ar griw bach. Soniwyd am gyfraniad diflino'r diweddar Emrys Jarman a'r chwithdod mawr o'i golli er y cyfarfod diwethaf. Roedd teyrngarwch ac ymlyniad Emrys yn esiampl inni gyd.

Etholwyd Lynn Jones yn drysorydd, Elin Wyn Roberts yn ysgrifennydd, a finna am fy mhechodau yn gadeirydd. "Ni fum erioed yn gadeirydd" ac o ran fy natur carwn baradio 'mlaen ac ychwanegu "ni fum nid af ychwaith". Ond oherwydd f'ymlyniad â'r Dinesydd ers blynyddoedd teimlais nad allwn wrthod yr her.

Y feirniadaeth a glywn yn amal yw bod y Dinesydd yn gor adlewyrchu bywyd parchus dosbarth canol Gyncoedaidd. Gai bwysleisio bod y Dinesydd yn bapur inni gyd ac y byddai'r Panel Golygyddol yn croesawu cyfraniadau ar bob agwedd o fywyd Caerdydd. Rhowch eich syniadau a'ch cyfraniadau inni da chi, a byddwch yn rhan o fwrlwm ein bro, a gadewch inni adlewyrchu hynny yn y Dinesydd.

------

O.N. Yn dilyn y Cyfarfod Cyhoeddus trosglwyddwyd y drysoryddiaeth i ofal Mr. Don Jenkins. Rydym fel pwyllgor yn ei groesawu'n gynnes i'n plith ac edrychwn ymlaen at gael cyd-weithio ag ef er budd Y Dinesydd. Gellwch chi Gymry Cymraeg Caerdydd ysgwyddo peth o'r baich trwy gyfrannu tuag at Gronfa'r Dinesydd. Cyfeiriad Mr. Don Jenkins yw:
14 Lomond Crescent, Ger-y-Llyn, Caerdydd.

# GWNEUD EI FARC

Cyrhaeddodd Marc Titley y brig eleni pan gafodd ei ddewis i gynrychioli ei wlad ar y maes chwarae. Rhydd fwynhad mawr i ni'r gwylwyr pan welwn ei redeg mentrus a'i ochr-gamu cywrain. Ond y peth pwysica i Marc yw'r mwynhad a'r hapusrwydd y caiff ef ei hunan allan o'r gêm.

Marc ydy'r cynta' i ennill 'cap' llawn o Ysgol Gyfun Rhydfelen, er i saith disgybl chwarae dros Ysgolion Cymru yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol.

Roedd Marc yn Rhydfelen o 1972 tan 1978. Yn ystod y cyfnod hwnnw chwaraeodd fel maswr i dimau'r ysgol o ddosbarth dau hyd nes ei fod yn gadael ym 1978. Cynrychiolodd dimau Ysgolion Pontypridd a'r Cymoedd yn rheolaidd ond nid aeth ymhell iawn mewn treialon oherwydd i Justin Robinson (chwarae i Gasnewydd nawr) gael ei ddewis yn ei le.

Pan oedd Marc yn y chweched dosbarth, dewiswyd ef yn gapten ar dîm cyntaf yr ysgol, a dylanwad da oedd ganddo ar ei gyd-chwaraewyr hefyd. Arweiniodd hwy ar ddwy daith, sef taith fer i Sir Aberteifi ym mis Mawrth 1977 pan chwaraewyd yn erbyn ysgolion Aberaeron, Llandysul ac Aberteifi.

Yna ym mis Chwefror 1978, capteiniodd y garfan ar daith hirach allan i Ynys Jersey, lle chwaraewyd pedair gêm ac ennill y bedair yn gyfforddus.

Roedd Marc yn athletwr o fri hefyd ac enillodd glod mawr ar draciau'r wlad pan yn yr ysgol, wrth redeg dros y clwydi, ac wrth neidio'r naid driphlyg. Daeth yn ail yn y ddwy gystadleuaeth ym Mabolgampau Ysgolion Cymru yng Ngorffennaf 1978.

Ar ôl gadael yr ysgol, chwaraeodd am dymor i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd, lle dangosodd dalent arbennig ar gaeau clybiau rygbi'r ail ddosbarth, eto fel maswr.

Pan aeth i'r Coleg yn Llundain, ymunodd â'r Cymry yn Llundain ac ar ôl tair gêm yn unig fel maswr, symudwyd ef i'r asgell. Cafodd dri tymor llwyddiannus gyda'r Cymry yn Llundain, lle dysgodd y grefft o chwarae ar yr asgell.

Wrth ddychwelyd i fyw ac i weithio i Dde Cymru, ymunodd â Chlwb Rygbi Penybont, ac o dan ddylanwad hyfforddwyr gwych fel Bili Griffiths a Lyndon Thomas, mae'r Marc Titley a oedd yn sgorio rhai ceisiadau gwych i Rydfelen pan yn blentyn, erbyn hyn yn eu sgorio nhw i Benybont.

Yn ystod y tymor hwn, gwelsom ef yn sgorio 46 o geisiau i'w glwb (- record newydd); yn helpu ei glwb i ennill cystadleuaeth saith bob ochor; yn helpu ei glwb i greu record newydd o 100 cais i asgellwyr (46 i Marc, 36 i un arall a 23 i un arall) ac yn gapten ei glwb mewn tair gêm.

I'w wlad, gwelsom ef yn chwarae yn erbyn Romania, Yr Alban, Iwerddon, Ffrainc a Lloegr, ac yn sgorio cais yn erbyn yr Alban. Ar ddiwedd y tymor, cafodd ei ddewis yn Chwaraewr y Flwyddyn yng Nghymru - clod enfawr i'w allu naturiol a'i agwedd hapus sy'n creu mwynhad.

Llongyfarchiadau gwresog i Marc Titley ar ei lwyddiant ysgubol eleni. Dymunwn y gorau iddo i'r dyfodol, gan obeithio y deil i roi'r pleser trydanol hwnnw i'r gwylwyr.

Arwel Owen.



# YMLAEN CAERDYDD - CYHOEDDI EISTEDDFOD YR URDD



Neuadd Dewi Sant yn orlawn yn Seremoni'r Cyhoeddi.

Cyhoeddwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch, 1985, o flaen cynulleidfa o ddwy fil yn Neuadd Dewi Sant.

Bu dros hanner y gynulleidfa yn gorymdeithio drwy'r brifddinas cyn seremoni'r cyhoeddi. Roedd y seremoni yn ddiweddglo i wythnos o weithgareddau'r cyhoeddi.

Wrth gyflwyno rhestr testunau'r Eisteddfod i Mr. Ifan Prys Edwards, Llywydd yr Urdd, dywedodd Mr. Malcolm Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, fod apêl ariannol yr Ŵyl wedi dechrau dwyn ffrwyth yn yr wythnosau aeth heibio.

Er hynny, apeliodd Mr. Thomas a Mr. Ifan Prys Edwards yn daer ar i fwy o Gymry Caerdydd i ymgymryd â'r gwaith o baratoi am y 'Steddfod yn ariannol ac yn ymarferol.

Amcangyfrifir y bydd yr Eisteddfod, a gynhelir yng Ngerddi Soffia o Mai 28 i Mehefin 1, 1985, yn costio dros £200,000. Dywedodd Mr. Thomas y gallai'r pwyllgor cyllid ar hyn o bryd sicrhau £125,000 o'r swm - felly y nôd ariannol i'w gyrraedd yn ystod y flwyddyn nesa' yw £75,000
Ffurfiwyd dros ugain o Gymunedau eisoes yn y ddinas i godi arian tuag at yr Eisteddfod, ond araf y bu ymateb rhai o'r cymunedau.

Dywedodd Mr. Thomas, "Mae gen i freuddwyd y bydd pobl bryniau Cyncoed a gwastadedd Llandaf yn mynd ati o ddifri ac yn arwain y Cymunedau eraill drwy esiampl. Mae'r cynhaeaf yn ffrwythlon ond y gweithwyr, ar hyn o bryd, yn anaml."

Agorwyd y seremoni mewn ffordd drawiadol gyda 16 o drwmpedwyr yn chwarae ffanffer o waith Dr. William Salaman, darlithydd yn Adran Addysg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.


Canwyd cywydd croeso, o waith y bardd ifanc o Gaerdydd, Emyr Lewis, gan barti o blant o Ysgol Melin Gruffydd, Caerdydd wedi eu hyfforddi gan Carys Williams, Llandaf, a gyfansoddodd y gosodiad i'r cywydd.

Cafwyd eitemau yn y seremoni hefyd gan gôr telynau o dan arweiniad Siân Thomas, gan Gôr Ieuenctid De Morgannwg a chan barti dawnsio gwerin o Ysgol Landsdowne Caerdydd. Meistres y ddefod oedd Lowri Angharad Stephens.

Er mai'r seremoni a'r orymdaith ar y dydd Sadwrn (Mai 19) oedd uchafbwyntiau'r cyhoeddi,cafwyd wythnos o ddigwyddiadau llwyddiannus yn y Brifddinas.

Ar y nos Fawrth (Mai 15) bu'r plant lleia'n 'cadw reiat' yn Ysgol Glantaf mewn disco arbennig a drefnwyd iddynt. Cafwyd perfformiadau gwefreiddiol gan Caryl a'r Band a'r Brodyr mewn Cyngerdd Roc yn Neuadd Dewi Sant nos Fercher (Mai 16). Ar y nos Iau (Mai 17) bu ieuenctid De Morgannwg yn perfformio mewn cyngerdd mawreddog yn Neuadd Dewi Sant. Cafwyd eitemau gan gôrau ysgolion cynradd ac uwchradd ac eitemau gan grwpiau ac unigolion o wahanol ysgolion y Ddinas.


Os yw naws a brwdfrydedd wythnos y cyhoeddi yng Nghaerdydd yn arwydd o'r hyn sydd i ddod, mae'n argoeli y bydd Eisteddfod Caerdydd yn llwyddiant.



# CARYL YN WEFREIDDIOL

Noson i'w chofio oedd honno yn Neuadd Dewi Sant pan heidiodd ieuenctid Cymraeg Caerdydd i wrando ar Caryl a'r Band a'r Brodyr yn rhoi noson. I lawer dyma oedd uchafbwynt dathliadau Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Caerdydd. Roedd perfformiad Caryl yn wefreiddiol a'i phersonoliaeth fel arian byw yn ennyn ymateb brwd gan y gynulleidfa ifanc. Pleser pur oedd gweld a chlywed seiniau'r Gymraeg yn diasbedain drwy'r neuadd. Teimlai rhai o selogion yr Urdd a oedd yno yn bur hen yng nghanol yr holl fwrlwm. Ond yn sicr fe roddodd y noson hwb fawr i weithgarwch Eisteddfod Caerdydd, ac os araf a chysglyd yw'r ymateb i godi arian hyd yn hyn, fe ddylai asbri'r noson sicrhau gwireddu arwyddair ein dinas "Deffro mae'n ddydd".





# GŴYL IFAN MAI 15-17



Eleni dethlir Gŵyl Ifan yn Neuadd Dewi Sant a chanolbwyntir mwy ar ddawnsio yng nghanol y ddinas nag a wnaethpwyd yn y gorffennol. Croesewir partion dawns o wahanol wledydd, yn cynnwys Cwmni Herriot-Watt o'r Alban a Gwyddelod o Mala, Swydd Corc.

Am fanylion pellach ynglŷn â thocynnau neu lety, cysyllter âg Andrew Tyler, 6 Brynteg, Rhiwbeina, Tel. 613239.

Beth am ddangos gwerthfawrogiad o waith caled Cwmni Dawns Canolfan yr Urdd trwy ddod i gefnogi'r Ŵyl eleni?



Emyr, Garmon, Llinos, Iwan ac Ifor yn mwynhau cwmni Syr Wynff a Plwmsan yng Ngŵyl Fai a gynhaliwyd yng Ngerddi Dyffryn er budd Ysgol Feithrin Clawdd Coch.

# LLOYD I'M YN ÔL?

"Nid mater o fwrw'r 'wal' oedd e', y tro hwn – y wal a'm bwrodd i!"

Dyna ymateb Lloyd Evans o Landaf, i'w orchest ddiweddaraf, sef cymryd rhan ym Marathon fawr Llundain.

Tair awr a phum-deg-saith munud ar ôl cychwyn o Blackheath ar fore Sul, Mai 13eg, fe groesodd y llinell-derfyn ac yntau wedi troedio 26 milltir o darmac caled, wedi colli wyth bwys ac wedi yfed digon o ddwr o'r cwpannau plastig i'w wneud yn swp sâl ar ddiwedd y râs.

"Rown i'n meddwl mod i'n marw meddai Lloyd ac yn teimlo'n siomedig, hefyd. Ar ôl gorffen marathon Caerdydd llynedd mewn tair-awr-a-hanner, y nôd yn Llundain oedd cyrraedd y lein o fewn tair-awr-a-chwarter. Ond ches i ddim cystal hwyl arni ag arfer. Ar ôl 5 milltir 'roedd fy nghoesau'n teimlo fel plwm a minnau'n ymwybodol o bob cam. 'Doedd y gwynt main a'r awyr sych ddim help, chwaith – mae'n haws rhedeg mewn glaw mân. Am rhyw reswm, allwn i ddim rhedeg yn naturiol, rhwydd fel y byddai wrth ymarfer. Allai ddim beio'r trefniadau – rheiny'n ardderchog – na'r cwrs ei hun sy'n hollol wastad o'i gymharu â'r tynnu fyny sy 'na mewn ambell i le yng Nghaerdydd. Ond ar ôl 16 milltir 'roeddwn i'n barod i roi'r gorau iddi a bu'n rhaid i mi frwydro'n galed a mi fy hun i yrru 'mlaen. Cystadleuaeth breifat, bersonol a chi'ch hun yw Marathon yn fwy na dim."



Sut deimlad oedd croesi'r lein?

"Dipyn yn fflat, a dweud y gwir. Dim ond swyddogion oedd yno, a 'roedd eu hangen nhw gyda 21,000 o gystadleuwyr! Ond yng Nghaerdydd 'roeddwn i'n teimlo'r croeso a'r cynhesrwydd wrth dynnu at y diwedd. Er hynny, ar ôl immi ddod ata' fy hun, 'roeddwn yn falch dros ben mod i wedi cael y fraint o gymryd rhan yn y Marathon mwyaf yn y byd yng nghwmni rhai sy'n ddarpar-ymgeiswyr yn y gemau Olympic."

Er iddo daeru yn union ar ôl y râs na fuasai'n debyg o gystadlu eto mae Lloyd i'w weld unwaith eto yn y bore bach, ei gap-pig am ei ben, yn rhedeg y strydoedd yn Llandaf a Radyr a mae'n cyfaddef bod yr awydd 'i wella tro nesaf' yn dal i'w gorddi.

Llongyfarchiadau di-bendraw iddo fo ac i'r ddau Farathonwr arall o Gaerdydd – John Cynon Davies a John Evans.

Prifathro Ysgol Y Colcot, Y Barri yw Lloyd ac er mai arferiad go wirion yw cyhoeddi oedran mewn adroddiad papur-newydd, efallai y buasai ei nodi y tro hwn yn ysbrydoli rhyw brentis-rhedwr i efelychu gorchest Lloyd.

Mae Mr. Evans yn 52 oed.

## CANLYNIADAU'R WYDDGRUG 1984

Barddoniaeth Dan 8 oed: (2) Sam Grace, Melin Gruffydd.
Rhyddiaith Dan 8 oed: (1) Evan Dawson, Melin Gruffydd.
Dosb.4 a 5: (3) Eleri Morgan, Glantaf;
14-25: (1) Elenid Owen, Glantaf
14-25: (3) Lowri Stephens, Glantaf
Cywaith 10-12 oed: (1) Criw y Cwm, Caerffili
Gwaith ar Dâp: (3) Y Ddwy a Hanner, Glantaf.
Gwyddoniaeth 10-12 oed: (3) Sharon Palmer, Springwood.
Cywaith 10-12 oed: (1) Cen, Coed y Gof
Arlunio 10-12 oed: (1) Robert Wheeler, Gwaelod y Garth
Collage 8-10 oed: (2) Bethan Gray, Bro Eirwg.
Collage 10-12 oed: (2) Anna John, Coed y Gof.
Crochenwaith 8-10 oed: (2) Steffan Shute, Ifor Bach.
Pypedau 8-10 oed: (2) Juliet Price, Melin Gruffydd; David Raybould, Ifor Bach
Brodwaith 10-12 oed: (3) Cathryn White, Ifor Bach.
Crosio: (3) Rhiannon Storm, Bro Eirwg
Gwaith Coed Dan 12 oed: (3) Aled Stevenson, Melin Gruffyd
Printio Dosb.1 a 2: (2) Rachel Edwards, Glantaf.
Dosb. 3 a 4: (1) Joanne Phillips, Glantaf.
Tri Dimensiwn Dosb.1 a 2: (2) Shân Edwards, Glantaf
Gweu Dosb.1 a 2: (2) Nerys Griffiths, Glantaf.
Brodio Dosb.3 a 4: (3) Joanne Smith, Glantaf.
Llwyfan:
Cân Actol Dan 12 oed: (1) Ysgol Y Creigiau
Unawd 10-12 oed: (2) Andrew Williams, Penarth
Parti Dawns Dan 12 oed: (3) Ysgol Lansdowne
Côr Dan 12 oed: (2) Ysgol Caerffili
Cerdd Dant Dan 12 oed: (2) Non Gwilym, Melin Gruffydd.
Telyn 12-15 oed: (3) Elin Angharad Evans, Glantaf.
Pres Dan 15 oed: (3) Sian Thomas, Glantaf
Deuawd 12-15 oed: (3) Julie ac Eleri Haf, Glantaf.
Offeryn Chwyth 15-19 oed: (3) Rhiannon Lloyd Jones, Glantaf
Telyn 15-19 oed: (3) Lynn Bassett, Glantaf
Dawns Unigol 15-19 oed: (3) Debbie Roberts, Glantaf.

# TORTH O FARA

"Gormod o Ddim nid yw Dda?"

Tybed sawl un ohonoch sy'n cychwyn meddwl ei bod yn bryd i chi golli ychydig o bwysau, unwaith eto, er mwyn cael gwisgo'r dillad haf, brynoch llynedd, ar eich gwyliau eleni? Efallai bod rhai ohonoch wedi rhoi i fyny'r syniad o golli pwysau gan nad oes 'run 'diet' yn gweithio. Anaml iawn y gwneir 'diet' pythefnos effaith barhaol ar bwysau unrhyw un; ond yn sicr mae angen i ni edrych yn feirniadol ar y bwyd 'rydym yn fwyta - hyd yn oed oes nad ydym yn rhy dew.

Mae tystiolaeth yn dangos bod cysylltiad cryf iawn gydrhwng ymborth ac iechyd. Cyhoeddwyd adroddiad yn ddiweddar, gan arbenigwyr yn y maes maeth, sy'n cefnogi'r cymeradwyon a wneir mewn sawl adroddiad cynharach. Dywed yr adroddiadau bod angen i ni wella ein hymborth trwy fwyta llai o siwgr, halen a brasder, yfed llai o alcohol a bwyta mwy o ffibr a bwydydd cyfan (wholefoods).

Gellir cael gwell carbohydradau o fwydydd eraill yn enwedig bwydydd sydd wedi eu gwneud o ranfwyd neu pylsau, neu'n cynnwys llysiau neu ffrwythau. Os ychwanegwn fwy o'r bwydydd hyn yn ein hymborth 'rydym hefyd yn fwy tebyg o gynyddu'r cyfanswm o ffibr yn ein hymborth. Ceir tystiolaeth i ddangos bod cysylltiad agos gydrhwng diffyg ffibr yn ein hymborth ac afiechydon fel rhwy medd, canser o'r calon a diferticulosis.

Gwelir yn awr bod hyd yn oed pobl sydd ddim ond ychydig dros y pwysau ddylent fod yn fwy tebygol o ddioddef o afiechydon a gysylltir a phwysau'r corff yn enwedig os oes tuedd yn y teulu o wasgedd gwaed uchel, afiechydon y galon neu glefyd siwgr.

Nid newid ein hymborth am bythefnos sydd angen i ni wneud ond ceisio newid ein hagwedd at fwyd, maeth a iechyd am weddill ein bywydau, a datblygu yr agwedd iawn ym meddyliau ein plant trwy ein hymarferion.

Yn anffodus nid yw'n hawdd perswadio gwneuthurwyr bwyd na'r llywodraeth i gymryd rhan gadarnhaol yn yr ymgyrch i wella ein hymborth. Yn wir, ni chafwyd cyhoeddi'r adroddiad diweddaraf yn syth ar ol ei gyflawni oherwydd beirniadaeth gan gynrychiolwyr o'r diwydiant bwyd.

Yn y wlad yma mae un person pob 3 munud yn marw o ymosod calon. Bydd 25% o'r boblogaeth yn marw o glefyd y galon a 50% yn dioddef rhyw effaith o'r salwch. Dengys ymchwil mai yn y gwledydd lle bwyteir cyfran uchel o frasder ceir y mwyafrif afiechydon calon. Yn Siapan, lle mae'r derbynnedd o frasder yn isel mae marwolaeth o ymosod calon yn eithaf anghyffredin.

Awgrymir mai'r ffordd orau o ostwng y **cyfran o frasder** yn ein hymborth yw trwy dorri i lawr ar y swm o gynhyrchion llaeth a chig a fwyteir ac allosod rhai'n gyda mwy o fwydydd sy'n cynnwys brasder 'polyunsaturated' - sef grawnfwyd, llysiau, pylsau a chiblys.

Mae gormod o halen hefyd yn gallu arwain at wasgedd gwaed uchel a 'hypertension'. Dylid gwneud ymdrech felly i dorri i lawr ar y cyfanswm o halen ddefnyddiwn pan yn coginio ac yn bwyta. Yn anffodus ceir cyfanswm uchel o halen mewn bwydydd cyfleus sydd wedi eu cyn-baratoi i ni gan wneuthurwyr bwyd. Yn ogystal a hyn mae llawer o'r bwydydd yma yn cynnwys gormod o siwgr, hyd yn oed rhai bwydydd safori. Mae siwgr pur (sucrose) yn un bwyd allwn fyw hebddo heb unrhyw effaith ddrwg arnom.

O ran y Gymuned Ewropeaidd mae ganddynt hwythau hefyd ran i chwarae yn hyn; bwriedir codi'r cyflanwad o frasder yn y gwahanol fathau o laeth, ac i leihau'r mynydd ymenyn cynigir gostwng pris ymenyn ar gael i wneuthurwyr bisgedi, cacennau a melysion. Felly dylanwadir ein dewis o fwyd gan wleidyddiaeth a'r cwmniau mawr sy'n cynhyrchu bwydydd yn ogystal a'n hagweddau a'n gwybodaeth personol am fwyd a'i effaith ar ein hiechyd.

---


A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan
**GWENAN**
**CAERDYDD 732233**
Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.



**YN EISIAU**
**TEIPYDDES DROS-DRO**
**(5/6 mis)**
Y telerau i'w trafod
Os oes gennych ddiddordeb cysyllter â'r
Academi Gymreig,
d/o, Cyngor Celfyddydau Cymru,
9 Stryd yr Amgueddfa,
Caerdydd, CF1 3NX
Ffôn Caerdydd 394711



Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal,
Ffôn: Caerdydd 43367


# Y SILFF LYFRAU

Mari R. Williams
TRO AR FYD
Tŷ ar y Graig £2.30

Dafydd Parri
MARC DANIEL
Y Lolfa £1.75

Alun Jones
OED RHYW ADDEWID
Gwasg Gomer £3.50

Mair Wynn Hughes
LLWYBRAU CARIAD
Tŷ ar y Graig £1.00

Gwyn Williams
Y CLOC TYWOD
Y Lolfa £2.95

Nofel uchelgeisiol yw 'TRO AR FYD'. Gwelwn bâr priod yn ymateb i refferendwm yr un mor drychinebus ag un 1979, trwy adael y ddinas ac ymsefydlu yng nghefn gwlad Cymru. Maent yn prynu ac yn addasu hen gapel â chymorth nifer o ffrindiau. Cyn bo hir, fodd bynnag, dyma ddarganfod bod y Llywodraeth wedi cuddio gwastraff niwcliar yn yr union ardal ac fe'u gorfodir i ddychwelyd i'r ddinas. Mae cynnwys tudalennau olaf y nofel feddylgar hon yn awgrymu y gellid llunio nofel arall fel dilyniant iddi. Os felly, gobeithio y bydd y cyhoeddwyr yn trefnu clawr mwy atyniadol ac yn sicrhau bod y proflenni yn cael eu darllen yn drwyadl. Dylai'r awdures ymdrechu i ystwytho gryn dipyn ar iaith lafar ei chymeriadau.

Newidiwn gywair yn hollol wrth droi at 'MARC DANIEL'. Dyma nofel dditectif ysgafn a darllenadwy. Ar ôl agor yn araf deg, braidd, daw cyffro i'r nofel wrth i wraig y ditectif gael ei herwgipio. Cymeriad y wraig a'r berthynas rhyngddi a'i gŵr yw'r peth gorau yma. Gyda'i gilydd maent yn hapus ac yn ddiogel, ond o'u gwahanu gallwch fentro y bydd anffawd yn eu goddiweddyd.

Dyna Marc, er enghraifft, yn troedio lôn unig ar ei ffordd i fwthyn anghysbell - darn o ysgrifennu effeithiol iawn. Mwynheais, hefyd, y disgrifiad o'r pryfed cochion yn y gwely! Gyda llaw, mae'r parsel bondigrybwyll hwnnw sydd mor bwysig ar ddechrau'r nofel yn cael ei agor ar dudalen 70, a hen bryd hefyd.

Dychwelwn i fyd y nofel uchelgeisiol gydag 'OED RHYW ADDEWID'. Ynddi, disgrifir yn fanwl ac yn drawiadol, y berthynas rhwng chwarelwr a'i ddau fab. Pan fo'r tad a'r ddau fab gyda'i gilydd mae'r llyfr yn gwreichioni. Nid yw'n argyhoeddi gystal pan awn i'r Ysgol Sul nac i ganol trafodaethau yn y chwarel. Gall yr awdur ddarlunio profiadau

---

# BYD Y BOL

MALVASO RESTRAUANT & PIZZERIA
(442c Cowbridge Road East, Parc Victoria)

-----

Fyddwn ni ddim yn cael llawer o gyfle y dyddiau yma i fynd allan i giniawa, ond daeth cyfle annisgwyl ychydig amser yn ôl tra roedd tadcu a mamgu yn gwarchod inni.

Roedd yn nos Sadwrn, diwrnod agoriad swyddogol y Maes Rygbi Cenedlaethol, yn wir, ac nid oeddem wedi trefnu bwrdd ymlaen llaw. Cychwyn o'r tŷ tua hanner awr wedi saith a chyrraedd y gwesty arbennig hwn wedi cael byrddau llawn mewn sawl lle yn nes at ganol y ddinas.

Mae'r argraff gyntaf yn ffafriol dros ben - byrddau wedi eu gosod yn daclus a hwylus, a dwy ran i'r ystafell fwyta gyda bar bychan yn un i ddisychedu unrhyw un sydd yn dymuno glasied yn ogystal â thamaid i'w fwyta.

Cael ein tywys i'r bwrdd gan aelod o'r staff, a phawb yn groesawgar dros ben. Cyrchu'r fwydlen, a chael arni gymysgfa dda o fwydydd yn cynnwys yn naturiol elfennau Eidalaidd fel y disgwylid mewn lle o'r fath enw. Gellid cael malwod pe dymunid, ac fe ellid cael dewis helaeth o 'hors d'ouvres' i ennyn blas y tafod at y prif gwrs. Mentrais ar y 'lasagne' i gychwyn, ac am rhyw £1.50 cafwyd desgliad llawn ohono, yn boeth, ac yn flasus iawn. Roedd y llestri yn rhai trymion a phan yn cyrraedd at ddiwedd y pryd roedd swn crafu braidd yn atgas wrth i'r fforc symud dros yr wyneb - hwyrach mai fy mai i oedd hynny yn bod yn farus!

Fel prif gwrs, roedd eto ddewis helaeth yn cynnwys sawl pryd pysgodyn, cig eidion, cig llo a chyw iar, ac wrth gwrs y cyfran Eidalaidd megis pizza, cannelloni a lasagne.

Dewisais y 'tournedos rossini' a chafodd y wraig 'coq-au-vin', a chafwyd blodfresych mewn caws, moron, pys a thatws bach wedi eu ffrio yn llysiau ar y plat. Roedd y cig eidion a'r cyw iar yn flasus ynddynt eu hunain, ac wedi eu coginio yn ddigonol, ond ychydig yn ddiflas, ac er fod digon ohonynt, pryd braidd yn fflat ei flas oedd y naill a'r llall fel ei gilydd, a phris y ddau rhywle ar draws £5.50 yr un.

Cawsom olwg ar y rhestr win, rhestr helaeth unwaith yn rhagor, a'r prisiau i'w gweld yn rhai digon rhesymol. Dewisom hanner carafe o win gwyn y tŷ a siomedig iawn ydoedd am £2.60 - roedd yn cael ei osod ar y bwrdd yn gynnes yn lle yn oer fel yw'r drefn gyda gwin gwyn, ac roedd 'na olwg gwin rhad arno gyda darnau bychan o'r corcyn neu'r ffrwyth yng ngwaelod y carafe ar y diwedd.

Cawsom baned o goffi a hufan UHT i orffen y pryd.

Pryd i ddau felly am £16.50, llond bol ond heb y blasusrwydd y disgwyliem amdano. Fe awn i rywle arall y tro nesaf.

Rhodri Gwyn.

rhamantus, hefyd, a hyfryd iawn yw caig Tegid a Meirwen yng Nghwm Ysgwn. Yn wir, mae ar ei orau yn cyfleu'r berthynas emosiynol rhwng ei gymeriadau, bod honno'n gynnes neu'n oeraidd. Mae diweddglo'r nofel raenus hon yn iasoer ac yn rymus.

Mae 'LLWYBRAU CARIAD', eto, yn nofel raenus ond ar lefel ysgafn a difyr. Efallai mai merched, yn bennaf, fydd yn mwynhau'r manylu ar wisgoedd ac ati, ond gall pawb fwynhau'r sgwrsio pigog, yr elfen o ddirgelwch, a'r digwyddiadau dramatig. Mae Nerys, y prif gymeriad, yn gwbl gredadwy, a'i phryderon yn cael eu cyfleu'n dda. Byddwch yn falch o glywed bod y nofel yn diweddu'n hapus ac yn hynod daclus.

'Y CLOC TYWOD'yw'r nofel fwyaf anghyffredin, stori am dri pherson sy'n digwydd bod yn y Dwyrain Canol ar adeg yr Ail Ryfel Byd: cyn-forwr, cyn-beilot, a merch ifanc ddiwyll-iedig. Mae yma ddigwyddiadau cyffrous a gwefreiddiol ond hefyd paragraffau o drafodaeth a chefndir sydd braidd yn sych ac esoterig. Gall yr awdur ddefnyddio tafodiaith — un bert o'r De — yn hynod effeithiol, ac mae'r tri phrif gymeriad yn argyhoeddi o'r dechrau i'r diwedd. Ar ei gorau mae'r nofel hon yn gampus — perthynas Hadad a'r merched; noson Efadne yn y tŷ bwyta a'r profiad rhywiol anffodus wedyn; Phylip ac Efadne yn gweld ei gilydd y tro cyntaf a'u cyfarf-yddiad wrth y deml. Mae yma elfen o dyndra, hefyd. A fydd Efadne yn dinistrio'r berthynas glòs rhwng Hadad a Phylip? Nofel arbennig, felly. Fe wnâi ffilm ragorol.

PHILIP WYN JONES.

# YR AGORIAD

"Chlywiff neb y llefain?"
gan Leigh Verrill-Rhys.

Mizon, Evans, Darker, Darnell - dyna rai o'r enwau sydd wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar ynghylch marwolaeth plant. Evans yw'r diweddaraf - gyrrwr lori sydd wedi'i gyhuddo o ladd y ferch fach, Marie Payne. Ond pwy ydy'r lleill? Darker a Mizon laddodd Andrew, 3 oed, mab Mizon. Cyhuddwyd Darnell o ladd ei fab, Ian, 2 fis oed.

Dydy Colin Evans ddim wedi mynd o flaen y llys eto ond cafodd y par, Darker a Mizon, eu dedfrydu erbyn hyn. Ymosodiad, creulondeb, ac achosi niwed corfforol oedd achos Darker. Fe fwrodd e Andrew gyda chiw snwcer tan i'r ciw dorri, ac fe losgodd e'r bachgen o flaen y tân. Bydd e yn y carchar am bedair blynedd. Dyn-laddiad oedd y cyhuddiad yn erbyn y fam, Tracey Mizon. Fe fwrodd hi ei mab yn y bola a bu farw Andrew, ar ôl y trais dyddiol, o anafau mewnol. Fe fydd hi'n derbyn triniaeth seicolegol o hyn ymlaen.

Yn achos David Darnell, mae e wedi pleidio yn ddi-euog. Bu farw Ian o 30 o doriadau esgyrn a churiadau o gwmpas ei fola, ei goesau, a'i ben.

Dau fis oed oedd Ian, cofiwch, a thair oed oedd Andrew.
Yn ôl y llu o bobl oedd tu fas y llys yn Barking, bydd Colin Evans yn y carchar am ei fywyd os bydd e'n euog. Ond y rhieni hyn? A oes hawl ganddyn nhw i guro eu plant hyd farwolaeth? Ac wedyn yn cael dedfryd gymharol ysgafn achos nad oedden nhw'n bwriadu lladd y plentyn - dim ond ei ddisgyblu. Am beth mae baban bach fel Ian yn cael ei gosbi, er mwyn y nefoedd!? Beth wnaeth Andrew Mizon i haeddu ei losgi a'i fwrw gyda chiw?

Llofruddiaeth yw llofruddiaeth. Yn arbennig gyda phlant di-amddiffyn, diniwed sy'n dibynnu yn llwyr ar eu rhieni, gwaeth pa mor wael ydyn nhw. Mae cyfrifol-deb ganddyn ni fel cymdeithas i'w hamddiffyn rhag eu curo a'u lladd.

A yw bywyd neu iechyd plentyn drws nesaf i chi mewn perygl? Ydych chi'n gwybod wrth bwy ddylech chi ddweud? Neu ydych chi'n meddwl nad oes ganddych chi'r hawl i ymyrryd? Chlywiff neb y llefain?

Mae'r gyfraith yn dyddio nôl i'r canol oesoedd pan ddisgwylid rhieni i reoli'r teulu gyda thrais. Gan fod cymorth ar gael ar gyfer y rhieni sy'n dueddol o guro eu plant, dylai'r gyfraith drin y rhai sydd ddim geisio y cyngor hwn yn galetach. Mae'n rhaid i'r gymdeithas ofalu am y dyfodol yn ei phlant a pheidio amddiffyn trais yn y teulu.

Gyda llaw, hen ystyr 'dad' yn Saesneg Canol oedd bwrw . . .

GEIRFA: dedfrydu, to sentence
dyn-laddiad, manslaughter
llofruddiaeth, murder

TAFLEN


LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn).

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 43



AR DRAWS

1. Cest dyn du sy'n dal cysylltiadau'r dyfyniad diwygiedig. (3-6)
8. Fe ddengys Arwel ei hun iti yn drefnus ei fod yn gweithredu yn annibynnol. (2,2,4,2,3)
11. Os yw'ch enw ar y rhestr, ewch i mewn; byddwch yn taro ar rywun yno. (5)
12. Lle i Bantycelyn aros yn Aberystwyth? (5)
13. Go dawel yw'r "berdoneg". (5)
16. Un o weithiau cynnar Verdi. (6)
17. "Pan fo'r gwyntoedd yn chwythu
    A'r storm yn taranu
    — —— i groesawu y gaeaf".
    (Hen gan) (2,4)
18. Tir gwlyb, a'r coed sy'n tyfu yno. (5)
19. Mae gwaith y rhai sy'n gweini yn y Mynydd Bychan yn debyg i rosyn wedi ei drin yn iawn. (6)
20. Coch neu frown yw efe. (6)
21. Diwyg. (5)
24. "Y mae ——— i bob peth" medd y Pregethwr. (5)
26. Yr wyt yn teilyngu. (5)
27. L fawr dilun ynghanol y plâu i ddynodi hawl yr awduron. (13)
28. Cerbyd i ddwyn deg N sy'n gweddu i'r anifeiliaid troed-galed. (9)

I LAWR

2. Ffarwel hoenus. (2,3)
3. Mewn fersiwn arall, nid ai o byth o afael hwn gydol ei oes, meddai'r Salmydd. (6)
4. Ymsefydlwn a thalwn y bil. (6)
5. Cyfiawn a syth. (5)
6. Digwyddiadau lletchwith pan syrthiodd tatws O.N. o'r tren yn blith draphlith. (6,7)
7. Caed lawer goruchafiaeth o'i gladdu â thro ynghanol ei bethau. (13)
9. Byddai yn diasbedain. (9)
10. Gwnes ymrwymiad. (9)
13. Nodwedd un math o 22 i lawr. (5)
14. Cyfer ar gyfer. (5)
15. Ffrwyth y famog. (5)
22. Metel go fain. (6)
23. Sŵn miwsig Nant y Mynydd. (6)
25. Y mae'n treiglo, (a hwnnw'n dreigledig). (5)
26. Udo cas. (5)

DATRYSIAD RHIF 42.

AR DRAWS. 6. CRAFU'R GWAELOD; 8. EDMYGA; 9. ROBIN GOCH; 10. NAW; 11. TRIAWD; 12. YMDROCHFA; 14. CYDNABU; 16. HYSBYSU; 20. HUNANGAR; 23. GARLLEG; 24. ATO; 25. EDRYCHENT; 26. LLUESTY; 27. BARDD CADEIRIOL.

I LAWR. 1. TALYSARN; 2. HUNANDYB; 3. AGORWYD; 4. DARBOD; 5. GLANIO; 6. CADW'R CYTUNDEB; 7. DROS FY SBECTOL; 13. RAS; 15. AWN; 17. YMGOLLAIS; 18. BWRIEDIR; 19. DRATO DI; 21. AR Y TRO; 22. GWENCI.

CYSTADLEUAETH RHIF 42

Dim ond saith datrysiad a ddaeth i law y mis hwn, a dim ond dau o'r rheiny oedd yn hollol gywir, er mai teg yw dweud mai dim ond mân wall neu ddau oedd yn yr ymgeision anghywir. Enw Annie Humphreys, 41, Insole Grove West, Llandaf, a dynnwyd o'r het, a bydd tocyn llyfrau Cymraeg am £5 yn ei chyrraedd maes o law. Y datrysydd arall a oedd yn hollol gywir oedd Mrs. Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd.

CYDNABOD: Cydnabyddwn yn ddiolchgar garedigrwydd Mrs. Gwenllian Gwyn Jones, enillydd rhif 41, yn dychwelyd y wobr er budd Y Dinesydd.

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

Buddsoddiadau

Yswiriant Bywyd

Pensiynau